

# Cyllid ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig mewn addysg uwch 2023/24 - canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7373**  
E-bost: **[Lucy.Morgan@senedd.cymru](mailto:Lucy.Morgan@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**  
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](https://www.gov.uk/government/contact)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyllid ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig mewn addysg uwch 2023/24

- canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2023

---

**Awduron:**

Rosemary Hill a Lucy Morgan



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig</b> .....	<b>2</b>
Meini prawf cymhwysedd.....	2
Cenedligrwydd a phreswyliaeth.....	2
Oedran .....	3
Eich cwrs.....	3
Eich darparwr .....	3
Astudiaethau blaenorol .....	3
Symiau cyllid .....	3
<b>3. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig</b> .....	<b>5</b>
Meini prawf cymhwysedd.....	5
Cenedligrwydd a phreswyliaeth.....	5
Eich oedran.....	5
Eich cwrs.....	5
Eich darparwr .....	6
Astudiaethau blaenorol .....	6
Symiau cyllid .....	6

---

**4. Cyllid ar gyfer cyrsiau eraill..... 7**

Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig ..... 7

Cymhelliant hyfforddi athrawon.....7

Cyllid gradd gofal cymdeithasol ..... 7

**5. Ffynonellau eraill o gymorth a chyllid..... 9**

Lwfansau i fyfyrwyr anabl ..... 9

Bwrsariaethau ..... 9

Cynghorau ymchwil ..... 9

Y gyfraith..... 10

Dawns, drama a cherdd..... 10

Cyrsiau cyfrwng Cymraeg ..... 10

**6. Rhagor o wybodaeth ..... 11**

## 1. Cyflwyniad

Bwriad y canllaw hwn yw helpu dysgwyr ôl-raddedig i ddeall pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i'w helpu i astudio cwrs addysg uwch.

Os gwnaethoch ddechrau eich astudiaethau cyn mis Medi 2019, dylech ddarllen **canllaw Cyllid Myfyrwyr Cymru**, sydd yn fwy addas i'ch sefyllfa chi.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn gymhleth iawn, ac mae llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod 'fel arfer' yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad neu hawl.

Mae cymorth ariannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Yn wahanol i gymorth ariannol israddedig, pan fo'r cymorth yn cael ei rannu rhwng help gyda'ch ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw, fel myfyriwr cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth byddwch yn cael un swm o arian a chi sy'n dewis sut i'w ddefnyddio.

*Ymwadiad: Gofynnir i Ymchwil y Senedd yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

## 2. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig

Os ydych yn dechrau cwrs Meistr ôl-raddedig, naill ai wedi'i addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil, gallwch wneud cais am gymysgedd o **fenthyciad a grant i'ch helpu gyda chostau'r cwrs a chostau byw**.

Yn **2023/24**, mae hyn yn cynnwys:

- Grant sylfaenol o £1,000 nad yw'n destun prawf modd, sydd ar gael i bob myfyriwr;
- Uchafswm grant sy'n destun prawf modd o £6,885 (gan gynnwys y grant sylfaenol o £1,000); a
- Benthyciad nad yw'n seiliedig ar brawf modd i ddarparu 'cymorth llawn' (grant a benthyciad) **hyd at £18,770**.

### Meini prawf cymhwysedd

Gall y **rheolau ynghylch cymhwysedd** fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. Dylech geisio cyngor arbenigol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd.

At ei gilydd, mae **cymhwysedd yn dibynnu ar** yr holl feini prawf a ganlyn:

- eich cenedligrwydd a phreswyliaeth;
- eich oedran;
- eich cwrs, a'ch prifysgol neu eich coleg;
- a ydych chi wedi astudio o'r blaen.

### Cenedligrwydd a phreswyliaeth

---

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswyllydd sefydlog';
- yn byw yng Nghymru fel arfer;
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs.

I gael rhagor o wybodaeth ar gyfer **gwladolion yr UE**, gweler y canllaw gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

## Oedran

---

Rhaid i chi fod dan 60 oed ar y diwrnod y bydd eich cwrs yn cychwyn. Serch hynny, **mae bwrsariaeth ar gael i bobl dros 60 oed**. I gael rhagor o wybodaeth am fwrsariaethau, gweler pennod 5 o'r canllaw hwn.

## Eich cwrs

---

Rhaid i'ch cwrs fod:

- yn gwrs Meistr annibynnol llawn, nid cwrs atodol;
- yn werth o leiaf 180 credyd;
- yn para rhwng 1 ac 4 blwyddyn.

Gall fod yn amser llawn neu'n rhan-amser, ac yn cael ei addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil.

## Eich darparwr

---

Gellir astudio'r cwrs mewn prifysgol neu goleg, neu drwy ddysgu o bell. Mae rhagor o wybodaeth am **ddysgu o bell** ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Rhaid i'r brifysgol gael ei chymeradwyo ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru a dylai fod yn y DU. Os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn **cwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru**. Os ydych yn ansicr, gallwch wirio gyda'ch prifysgol neu'ch darparwr.

## Astudiaethau blaenorol

---

Os oes gennych radd Meistr eisoes neu os ydych wedi cael benthyciad gradd Meistr ôl-raddedig o'r blaen, mae'n annhebygol y byddwch yn gymwys i gael y cyllid hwn. Efallai y byddwch yn gallu cael y cyllid os bu'n rhaid i chi adael eich cwrs blaenorol oherwydd rhesymau personol cymhellol, a byddai angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

## Symiau cyllid

Ar gyfer cwrs Meistr ôl-raddedig, efallai y byddwch yn cael cyfuniad o grant a benthyciad. Bydd y cyfuniad o grant a benthyciad yn dibynnu ar incwm eich cartref. **Yr uchafswm cyfunol posibl yw £18,770**.

Er enghraifft, **gallwch gael hyd at £18,770** gydag **uchafswm grant o £6,885 a**



**benthyciad o £11,885** os yw **incwm eich aelwyd yn £18,370 neu'n llai**.

**Isafswm y grant y gallwch ei gael yw £1,000 gyda'r £17,700 sy'n weddill fel benthyciad** os yw **incwm eich aelwyd dros £59,200**.

Os yw eich cwrs yn para mwy na blwyddyn, **bydd yr arian yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws pob blwyddyn o'ch cwrs**. Mae'n rhaid i chi ad-dalu unrhyw fenthyciad rydych yn ei gael.

Mae rhagor o wybodaeth am faint o gyllid y gallwch ei gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### 3. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig

Gall myfyrwyr doethuriaeth sy'n dechrau cwrs rhan-amser neu amser llawn wneud cais am **fenthyciad Cwrs Doethurol Ôl-raddedig** o hyd at £28,395 dros gyfnod y rhaglen.

#### Meini prawf cymhwysedd

Mae **nifer o feini prawf** a fyddai'n golygu nad ydych yn gallu cael benthyciad cwrs Doethurol ôl-raddedig. Er enghraifft, os ydych yn cael cyllid gan y cynllun Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS 2), neu fwrariaeth gwaith cymdeithasol. Ni fyddwch yn gallu ymgeisio chwaith os oes gennych radd ddoethurol eisoes.

Yn fras, mae cymhwysedd yn debyg i'r meini prawf ar gyfer cyllid gradd Meistr ôl-raddedig ac yn dibynnu ar eich cenedligrwydd a'ch preswyliaeth, eich oedran, eich cwrs a'ch prifysgol neu eich coleg a'ch astudiaethau blaenorol.

#### Cenedligrwydd a phreswyliaeth

---

Yn gyffredinol, er mwyn gwneud cais am gymorth, rhaid i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â statws preswyllydd sefydlog (sy'n golygu nad oes cyfyngiadau ar yr hyd y cewch aros yn y DU);
- yn byw yng Nghymru fel arfer;
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys os ydych yn wladolyn yr UE. I gael rhagor o wybodaeth ar gyfer gwladolion yr UE, gweler gwefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

#### Eich oedran

---

Rhaid i chi fod dan 60 oed ym mlwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs.

#### Eich cwrs

---

Rhaid i'ch cwrs:

- fod yn gwrs Doethurol ôl-raddedig annibynnol (nid cwrs atodol);
  - fod wedi dechrau ar 1 Awst 2018 neu wedi hynny;
  - para rhwng 3 ac 8 blwyddyn academaidd.
-

Gellir astudio'r cwrs mewn prifysgol neu goleg, neu drwy ddysgu o bell a gall fod yn gwrs amser llawn neu ran-amser.

## **Eich darparwr**

---

Rhaid i'ch prifysgol neu goleg gael eu hariannu drwy arian cyhoeddus. Os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn cwrs sydd wedi'i **gymeradwyo ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru**.

Os oes mwy nag un brifysgol yn gyfrifol am ddarparu'ch cwrs ac mae'r llall dramor, byddwch yn gymwys dim ond os mai'r brifysgol yn y DU yw'r prif sefydliad ar gyfer eich cwrs ac yn darparu'ch goruchwyliaeth. Rhaid i chi hefyd dreulio o leiaf 50% o'ch addysgu mewn prifysgol yn y DU.

## **Astudiaethau blaenorol**

---

Nid ydych yn gymwys i gael Benthyciad cwrs Doethurol Ôl-raddedig yn yr achosion canlynol:

- rydych chi wedi cael Benthyciad cwrs Doethurol Ôl-raddedig eisoes;
- mae gennych radd Doethurol eisoes, neu gymhwyster cyfwerth neu uwch.

Efallai y byddwch yn gallu cael cyllid os bu'n rhaid i chi adael cwrs blaenorol oherwydd rhesymau personol cymhellol. Dylech edrych ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru** i weld y meini prawf cymhwysedd llawn.

## **Symiau cyllid**

Gall myfyrwyr cymwys fenthyca hyd at **uchafswm o £28,395** dros gyfnod eu rhaglen ddoethurol. Mae cyrsiau sy'n parhau, a ddechreuodd o'r flwyddyn academaidd 2018/19 neu'n hwyrach, ond cyn 1 Awst 2023, yn gymwys i gael cymorth ar y gyfradd sy'n berthnasol i'r flwyddyn academaidd y gwnaethant ddechrau.

Gwneir taliadau mewn cyfranddaliadau ar draws nifer y blynyddoedd o'r rhaglen ddoethurol, gyda'r uchafswm o gymorth sy'n daladwy mewn unrhyw flwyddyn wedi'i gapio ar 50%.

Nid yw'r benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd.

Mae'r manylion llawn ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## 4. Cyllid ar gyfer cyrsiau eraill

### Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig

Os oes gennych radd israddedig eisoes ac rydych yn dymuno gwneud cwrs **Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig**, dylech wneud cais am yr un cyllid â myfyriwr israddedig. Mae hyn yn golygu y gallech fod yn gymwys i wneud cais am gymorth ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw. Mae gennym ganllaw ar wahân ar gyllid myfyrwyr israddedig ar gyfer 2023/24 sydd â rhagor o wybodaeth.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael **rhai cymhellion Addysg Gychwynnol i Athrawon**. Cysylltwch â'ch prifysgol am y rhain.

### Cymhelliant hyfforddi athrawon

---

Mae gan Lywodraeth Cymru **gynllun cymhelliant ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon** sydd ar ben y cymorth ariannol tebyg i'r cymorth i fyfyrwyr israddedig a grybwyllwyd uchod.

Ar adeg ysgrifennu hyn, roedd gan Lywodraeth Cymru **dri chynllun cymhelliant** ar gael i fyfyrwyr:

- **Pynciau blaenoriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon:** mae grantiau ar gael i fyfyrwyr cymwys sydd â gradd benodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **gwybodaeth i fyfyrwyr ar gyfer 2022 i 2024**.
- **Cymhellion Iaith Athrawon Yfory:** mae'r grantiau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio am gymhwyster sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu Cymraeg fel pwnc.
- **Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol:** mae grantiau ar gael i fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n astudio rhaglen AGA ôl-raddedig achrededig.

### Cyllid gradd gofal cymdeithasol

Mae **Gofal Cymdeithasol Cymru** yn gweinyddu bwrsariaethau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n dilyn gradd Meistr gwaith cymdeithasol gymeradwy yng Nghymru.

I gael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol, mae Gwaith Cymdeithasol Cymru yn esbonio:

- rhaid eich bod yn byw yng Nghymru.
- rhaid i chi beidio â chael cymorth ariannol arall gan gyflogwr i hyfforddi;
- rhaid i chi astudio **cwrs gradd Meistr cymeradwy yng Nghymru**.

Os oes gennych gynnig i astudio mewn prifysgol yng Nghymru, gall eich prifysgol eich enwebu i wneud cais am y fwrsariaeth os byddwch yn bodloni'r amodau uchod. Mae gan bob rhaglen gwaith cymdeithasol nifer o fwrsariaethau wedi'u dyrannu. Nid yw cael eich enwebu yn sicrhau y cewch gyllid y fwrsariaeth.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael:

- help tuag at gostau lleoliadau gwaith, drwy'r Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer (LCDY);
- rhai grantiau a lwfansau sy'n destun asesu incwm, gan gynnwys grant oedolion dibynnol, lwfans dysgu rhieni a grant gofal plant; a
- Lwfansau i fyfyrwyr anabl.

I gael rhagor o wybodaeth am faint o gyllid sydd ar gael, gweler **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae eu **manyion cyswllt** ar gael ar ei gwefan.

## 5. Ffynonellau eraill o gymorth a chyllid

### Lwfansau i fyfyrwyr anabl

Y grant uchaf sydd ar gael ar gyfer **y grant i fyfyrwyr anabl yn 2023/24** yw £33,146. Nid yw hyn yn destun prawf modd nac wedi'i raddio yn seiliedig ar ddwystr astudio, ac mae'n cwmpasu'r meysydd gwariant hyn:

- cynorthwydd personol anfeddygol;
- eitemau o gyfarpar arbenigol;
- gwariant arall sy'n ymwneud ag anabledd.

Mae lwfans teithio ar wahân ar gael i fyfyrwyr sy'n wynebu costau teithio ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio oherwydd eu hanabledd.

Mae rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gymwys ar gyfer y lwfans i fyfyrwyr anabl ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Bwrsariaethau

Mae'r **bwrsariaethau** a ganlyn ar gael i'r rhai sy'n dilyn gradd Meistr yng Nghymru:

- £4,000 i bobl dros 60 oed. Nod y grant yw rhoi cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hyn nad ydynt yn gallu cael y cyllid cwrs Meistr ôl-raddedig.
- £2,000 i raddedigion o bob oedran sy'n astudio pynciau STEM (mae'r rhain yn cynnwys gradd Meistr mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg neu feddygaeth);
- £1,000 ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nod y grant yw annog datblygiad siaradwyr Cymraeg a chefnogi nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### Cyngorau ymchwil

**Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig** (UKRI) yw'r corff sy'n dwyn ynghyd y saith cyngor ymchwil yn y DU ynghyd ag Innovate UK a Research England.

Mae gan bob cyngor ymchwil ei bortffolio ei hun sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys y gwyddorau meddygol a biolegol, ffiseg, cemeg a pheirianeg, gwyddorau cymdeithasol, economeg, gwyddorau amgylcheddol a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Mae pob un o'r cyngorau ymchwil yn ystyried cyllido ôl-raddedigion unigol, ond mae'r broses o sicrhau cyllid gan unrhyw gyngor ymchwil yn gystadleuol, ac nid yw'r ffaith bod myfyriwr wedi cael lle ar raglen ôl-radd yn golygu, o anghenraid, y dyfernir cyllid iddo. Mae gwybodaeth fanylach am gyllid ar gael ar [wefan UKRI](#).

## Y gyfraith

Mae [Cymdeithas y Cyfreithwyr](#) yn cynrychioli cyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu cymorth mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys lobiö a thrafod â rheoleiddwyr, y llywodraeth ac eraill, ac yn cynnig hyfforddiant a chyngor.

Mae'n gweinyddu cynllun mynediad o'r enw'r [Diversity Access Scheme](#) i helpu pobl ymroddedig ac eithriadol o ddawnus i oresgyn rhwystrau cymdeithasol, economaidd neu bersonol rhag dod yn gyfreithiwr. Gall y cynllun hwn ddarparu ysgoloriaethau i ariannu'r Cwrs Ymarfer y Gyfraith, lleoliadau gwaith a chymorth mentora.

## Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDA (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn rhai sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Mae cynllun DaDA ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 23 oed, sy'n dangos talent a thebygolrwydd o lwyddo yn y diwydiant. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar [wefan Llywodraeth y DU](#).

Mae'r [Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuentid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau](#) hyd at £1,000 ar gyfer dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Er mwyn bod yn gymwys i gael bwrsariaeth rhaid i chi fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys bod yn ddinesydd y DU a gallu dangos dawn ac ymroddiad i wella'ch sgiliau. Ceir rhagor o [wybodaeth am gymhwysedd a sut i wneud cais](#) ar ei gwefan.

## Cyrsiau cyfrwng Cymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynig [Ysgoloriaethau Ymchwil](#) ar gyfer 10 o fyfyrwyr PhD sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cewch ragor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau, gofynion cymhwysedd, a sut i wneud cais ar eu [gwefan](#).

## 6. Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr o ymddiriedolaethau, elusennau a sefydliadau yn y DU sy'n darparu cyllid cyrsiau ôl-raddedig i'w chael ar [wefan Prospects](#).

[Turn2Us](#) yn wasanaeth elusennol sy'n helpu pobl i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ariannol addas a gwneud ceisiadau amdanynt, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Gall cronfa ddata Turn2Us helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am fudd-daliadau lles, grantiau, cronfeydd lles a help arall.

Mae'r [Grants Register](#), a gyhoeddir yn flynyddol, yn rhoi manylion am filoedd o gyfleoedd cyllido ledled y byd. Mae'r Directory of Grant Making Trusts, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau, hefyd yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau grantiau perthnasol. Mae'r llyfrau hyn ar gael gan wasanaethau gyrfaoedd neu mewn llyfrgelloedd lleol.